# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Iau, 19 Hydref 2023

**YN BRESENNOL:** M. Dodd (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
C. Davies, D. Evans, J. James a F. Phillips

**Aelod Cymunedol:**
Y Cynghorydd P. Rogers

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.15 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B.W. Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED MEDI, 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023 gan eu bod yn gywir, yn amodol ar wneud newidiadau gramadegol i eitem 6 ar yr agenda - Data Côd Ymddygiad 2022-23**.

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD JEANETTE GILASBEY

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Jeanette Gilasbey o Gyngor Tref Cydweli am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r buddiannau personol a rhagfarnol canlynol:

- Eglwys y Santes Fair, Cydweli – Mae'r Cynghorydd Gilasbey yn aelod ac yn ymddiriedolwr ar Gyngor Plwyf Eglwys y Santes Fair yng Nghydweli.
- Clwb Rygbi Cydweli – Mae'r Cynghorydd Gilasbey yn aelod, yn ysgrifennydd ac yn gyfarwyddwr ar Glwb Rygbi Cydweli.
- Amgueddfa Cydweli - Mae'r Cynghorydd Gilasbey yn ymddiriedolwr ar Ymddiriedolaeth ac Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Gilasbey fuddiant rhagfarnol a phersonol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(ee) o'r Côd Ymddygiad.

Roedd buddiant y Cynghorydd Gilasbey hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Gilasbey wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliad 2(2)(d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y Cynghorydd Gilasbey wedi cael gollyngiad o'r blaen mewn perthynas â'r buddiannau hyn ym mis Ionawr 2019 a Rhagfyr 2022.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (2)(d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Jeanette Gilasbey SIARAD A GWNEUD SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG mewn cyfarfodydd mewn perthynas â materion yn ymwneud ag:**

- **Eglwys y Santes Fair, Cydweli**
- **Clwb Rygbi Cydweli**
- **Amgueddfa Cydweli**

**a bod y gollyngiadau hyn yn ddilys tan ddiwedd ei chyfnod presennol yn y swydd.**

## 5. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**